# Cymdeithasau Tai yng Nghymru – Gwella bywydau tenantiaid a chymunedau: Astudiaeth ddisgrifiadol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil | Ymchwil cymdeithasol | Rhif: 20/2012

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth ymchwil a gomisiynwyd ym mis Ionawr 2012 i gasglu a chrynhoi gwybodaeth am weithgareddau datblygu cymunedol a chefnogi cymdeithasau tai, i'w tenantiaid a'r cymunedau ehangach lle maent yn gweithredu. Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar weithgarwch yn 2010-11 a 2011-12.

Asesodd yr astudiaeth natur, ystod a swm y gweithgareddau, a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i amcanion Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn cyflwyno nifer yr unigolion a chartrefi sy'n elwa o'r gweithgareddau hyn, yr adnoddau ariannol a staffio a fuddsoddir ynddynt, a'r cyfraniadau a wnaed gan bartneriaid i'w cyflwyno.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Cyflwyniad**

Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, neu fel y'u hadwaenir yn fwy cyffredin, cymdeithasau tai, yn berchen ar ac yn rheoli oddeutu 150,000 o gartrefi ar draws Cymru. Prif rôl cymdeithasau fel landlordiaid yw datblygu cartrefi newydd i'w rhentu (ac mewn rhai amgylchiadau ar gyfer perchnogaeth a rennir), atgyweirio a gwella cartrefi sy'n bodoli eisoes, a darparu gwasanaethau rheoli tai. Mae rhai cymdeithasau wedi ymestyn eu rôl graidd i gynnwys:

- gwasanaethau Gofal & Thrwsio yn darparu gwybodaeth, cyngor ac atgyweiriadau, gwella ac addasu tai pobl hŷn, i'w cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth yn y gymuned;
- gwasanaethau cefnogi cysylltiedig â thai i bobl ag amrywiaeth o anghenion cefnogi;
- gwasanaethau gofal fel gofal preswyl a domestig.

Mae llawer o gymdeithasau hefyd wedi datblygu amrywiaeth o wasanaethau a chefnogaeth **ychwanegol**, i denantiaid a'u teuluoedd, ac, mewn rhai achosion, i'r gymuned ehangach, y gellir eu disgrifio'n eang fel gweithgareddau datblygu cymunedol.

Er bod peth gwybodaeth ar gael am weithgareddau datblygu cymunedol oedd yn cael eu cynnal gan gymdeithasau tai yng Nghymru, roedd darlun cynhwysfawr ar goll. O ganlyniad comisiynodd Llywodraeth Cymru'r astudiaeth ddisgrifiadol hon, a ymgymerwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2012 gan yr ymgynghorwyr Housing + Cymru.

## Methodoleg

Gofynnwyd i 39 o gymdeithasau tai gwblhau holiadur am weithgareddau datblygu cymunedol yr oeddent wedi'u datblygu, eu harwain neu eu rheoli, naill ai yn annibynnol neu mewn partneriaeth ag eraill, sy'n anelu at fod o fudd o denantiaid, teuluoedd tenantiaid a'r cymunedau lle maent yn byw ac sy'n **ychwanegol** i ddyletswyddau canlynol cymdeithasau:

- dyletswyddau rheoli a chynnal a chadw tai statudol fel landlord;
- cyfrifoldebau cytundebol fel darparwr cefnogi neu ofal;
- cyfrifoldebau fel asiantaeth Gofal a Thrwsio;
- gweithgareddau effeithlonrwydd ynni a ariennir gan ARBED.

Derbyniodd yr arolwg gyfradd ymateb o 100%.

Ar gyfer pob un o'r gweithgareddau a restrwyd, gofynnwyd i gymdeithasau nodi pa rai o brif amcanion polisi canlynol Llywodraeth Cymru yr oeddent yn cyfrannu atynt:

- gwella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd
- gwella lles pobl a lleihau arwahaniad cymdeithasol
- creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi
- hybu cydraddoldeb cyfle a mynediad
- cynhwysiad digidol
- gwella addysg, sgiliau a dysgu yn fwy cyffredinol
- mynd i'r afael â thlodi
- lleihau allyriadau carbon.

Roedd rhai gweithgareddau a restrwyd, er eu bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at un neu fwy o amcanion polisi, yn chwarae rôl bwysicach wrth helpu i ddatblygu **gallu** sefydliadau a chymunedau yn eu hardal i gyfrannu at yr amcanion hynny. Crëwyd categori ychwanegol felly o'r enw 'datblygu gallu lleol'.

Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn gyda swyddogion allweddol mewn 15 o gymdeithasau tai, i ddatblygu cyfres o astudiaethau achos drwy gydol yr adroddiad, a sefydlu dealltwriaeth am y rhesymau pan fod gan rai cymdeithasau lai o ymwneud mewn gweithgarwch datblygu cymunedol nag eraill.

Roedd yr amserlen ar gyfer y prosiect hwn yn fyr iawn. Roedd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani gan gymdeithasau yn eang ac yn gymhleth. Roedd rhai o'r ymatebion a dderbyniwyd yn gynhwysfawr, tra roedd eraill yn llai felly, a mabwysiadodd gymdeithasau wahanol agweddau at ddarparu gwybodaeth ar rai agweddau ar yr holiadur. Mae'r canfyddiadau isod yn darparu awgrym weddol gadarn o ystod a chwmpas y gweithgarwch datblygu cymunedol, a ymgymerwyd gan gymdeithasau tai ar draws Cymru, ond ni ellir dweud ei fod yn ddarlun cwbl gynhwysfawr. Cymerodd yr ymchwilwyr ymagwedd geidwadol at ddehongli data, ac maent yn ystyried bod y ffigurau a ddarperir yn yr adroddiad yn cynrychioli tanamcangyfrif o ymwneud cymdeithasau â gweithgarwch datblygu cymunedol.

## Crynodeb o'r Canfyddiadau

Mae'r prosiect hwn wedi dangos yn glir fod rhan fwyaf y cymdeithasau tai yng Nghymru yn ymwneud â swm sylweddol o weithgarwch

datblygu cymunedol, a bod y gweithgarwch hwn yn cyfrannu'n sylweddol at ystod eang o amcanion Llywodraeth Cymru sy'n mynd ymhell y tu hwnt i dai.

### *Graddau'r gweithgareddau*

O'r 39 o gymdeithasau y cysylltwyd â hwy, roedd 36 (92.4%) yn ymwneud â gweithgareddau datblygu cymunedol ac roedd 3 (7.6%) nad oeddent yn gwneud hynny.

Roedd cymdeithasau tai yn ymwneud â chyflwyno cyfanswm o 269 o weithgareddau datblygu cymunedol yn 2010/11, y mae 195 o leiaf ohonynt wedi parhau y tu hwnt i Ebrill 2011. Mae 224 o weithgareddau datblygu cymunedol newydd wedi dechrau ers Ebrill 2011.

Yn 2010/11 ac ers Ebrill 2011, mae nifer mwyaf y gweithgareddau wedi'u trefnu yn bennaf er mwyn:

- gwella lles a lleihau arwahaniad cymdeithasol;
- gwella addysg, sgiliau a dysgu;
- creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi; a
- mynd i'r afael â thlodi.

### *Mathau o weithgareddau*

Roedd amrywiaeth enfawr yn ystod, math a graddfa'r gweithgareddau yr oedd cymdeithasau yn cymryd rhan ynddynt. Roedd gweithgareddau yn amrywio o rai ar raddfa fawr (e.e. datblygu a chynnal Moneyline Cymru) i rai ar raddfa lai (e.e. aerobeg cadair esmwyth i denantiaid hŷn). Mae gwybodaeth fanylach am weithgareddau o dan bob amcan Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys yn y prif adroddiad.

### *Deilliannau ac allbynnau o'r gweithgareddau*

Roedd o leiaf 48,690 o unigolion a 8,485 o gartrefi wedi elwa o'r gweithgareddau hyn yn ystod y flwyddyn ariannol 2010/11. Roedd y niferoedd mwyaf wedi elwa ar weithgareddau â'r nod o:

- ddatblygu gallu lleol;
- gwella lles a lleihau arwahaniad cymdeithasol;
- mynd i'r afael â thlodi; a
- chreu cymunedau mwy diogel.

Roedd allbynnau gweithgareddau yn amrywio'n fawr rhwng y gwahanol amcanion polisi, ac yn cynnwys, er enghraifft:

- ymweliadau â 101 o ysgolion i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig
- cynigiwyd cyngor a chefnogaeth am gyflogaeth i 650 o bobl o leiaf
- dosbarthwyd 500 o gyfrifiaduron am ddim i denantiaid.

Roedd deilliannau'n amrywio'n fawr hefyd, ac roeddent yn cynnwys, er enghraifft:

- hwyluso o leiaf 580 o bobl hŷn i adael yr ysbyty yn gyflym ond yn ddiogel.
- arbedion uwch na £300,000 i asiantaethau yn ymwneud ag un prosiect ymyrraeth teuluol
- cynhyrchwyd £455,244 o incwm a chafwyd lleihad o £123,191 mewn taliadau Lwfans Ceisio Gwaith, o ganlyniad i gyfraddau

cyflogaeth uwch hyfforddeion mewn un prosiect
- sicrhawyd £800k ar gyfer gwelliannau i safle Teithwyr Sipsiwn
- lleihad mewn dyled bersonol o £42,927.82, a chynnydd mewn incwm o £10,476.93, i denantiaid mewn un prosiect cynhwysiad ariannol.

Roedd llawer o gymdeithasau nad oeddent yn gallu darparu gwybodaeth gadarn am ddeilliannau gweithgareddau. Mae gwaith i'w wneud eto, i helpu cymdeithasau i ddiffinio a chipio deilliannau ac effeithiau'r gwaith datblygu cymunedol y maent yn ymwneud ag ef.

### *Gwariant ar weithgareddau a ffynonellau cyllid*

Mae'r gwariant ar weithgareddau datblygu cymunedol cymdeithasau yn sylweddol. Yn 2010/11, roedd cyfanswm y gwariant o'r holl ffynonellau ar weithgareddau datblygu cymunedol, lle roedd cymdeithasau tai yn ymwneud â hwy yn £10,045,996 o leiaf. O'r gwariant hwn, roedd cyllid ar gyfer gweithgareddau gan y cymdeithasau eu hunain (yn cynnwys costau staff) yn £6,188,416 o leiaf. Mae cyllid gan gymdeithasau ar gyfer gweithgareddau newydd y dechreuwyd arnynt ers Ebrill 2011 wedi cynyddu i £6,918,205 o leiaf.

Daeth y prif ffynonellau cyllid ar gyfer gweithgareddau datblygu cymunedol nad oedd o'r cymdeithasau yn 2010/11 o:

- y sector statudol (e.e. adrannau awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Cymunedau 2.0, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Cronfa Swyddi'r Dyfodol, Rhaglen Blaenau'r Cymoedd
- y sector preifat (e.e. contractwyr cymdeithasau, rhoddion preifat/nawdd, banciau)
- y sectorau gwirfoddol ac elusennol (e.e. Loteri Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Groundwork, Gweithredu Ynni Cenedlaethol).

Roedd swm y cyllid gan gymdeithasau ar gyfer gweithgareddau unigol yn amrywio'n fawr. Cyfrannodd gymdeithasau symiau mawr at rai gweithgareddau (e.e. £2,000,000 ar gyfer datblygu both creadigol newydd mewn lleoliad canol tref allweddol). I eraill, cyfrannwyd ychydig neu ddim cyllid, ond mae llawer o weithgareddau â chost gymharol isel wedi bod o fudd i niferoedd uchel iawn o unigolion.

### *Cyflwyno gweithgareddau*

Mae niferoedd cynyddol o gymdeithasau tai Cymru yn ystyried datblygu cymunedol fel rhan o'u busnes craidd. Yn 2010/11, roed 65% o weithgareddau datblygu cymunedol wedi'u 'prif ffrydio' o fewn cymdeithasau unigol (h.y. roeddent wedi dod yn rhan o waith craidd y gymdeithas).

Yn ystod yr un flwyddyn, dim ond 6% o'r holl weithgareddau a gyflwynwyd gan grwpiau o gymdeithasau yn gweithio mewn partneriaeth. Er gwaetha'r ffaith fod llawer o'r gweithgareddau y mae cymdeithasau yn ymwneud â hwy yn debyg yn aml, roedd graddau'r cydweithio rhwng cymdeithasau yn gyfyngedig.

Cynhaliodd gymdeithasau weithgareddau datblygu cymunedol gydag ystod eang o bartneriaid. Yn 2010/11:

- % y partneriaethau sector gwirfoddoli oedd 49%
- % y partneriaethau sector preifat oedd 9%
- % y partneriaethau sector cyhoeddus oedd 42%

Roedd llawer o gymdeithasau yn ei chael yn anodd amcangyfrif cyfanswm yr amser staff oedd yn ymwneud â chyflwyno gweithgareddau datblygu cymunedol, ond o'r ffurflenni, gallwch ddweud bod amser staff y cymdeithasau gyfystyr â 70 o swyddi llawn amser cyfatebol yn ystod y flwyddyn ariannol 2010/11, a 54 o swyddi llawn amser cyfatebol ers Ebrill 2011.

Rhoddodd gwirfoddolwyr o'u hamser i gyflwyno 134 o weithgareddau yn 2010/11. Roedd nifer yr oriau a roddwyd i bob gweithgaredd yn amrywio o lai na 100 awr (ym mwyafrif yr achosion) i 2,571 awr (a roddwyd i brosiect Cyfnewid Amser).

***Rhesymau dros a rhwystrau i ymwneud â gweithgareddau***

Dywedodd cymdeithasau tai eu bod yn ymwneud â chyflwyno gweithgareddau datblygu cymunedol yn bennaf oherwydd eu bod yn ystyried gwaith o'r fath yn ganolog i flaenoriaethau strategol, neu genhadaeth y sefydliad (63%), ac oherwydd eu hymrwymiad i wella ansawdd bywyd eu tenantiaid (17%) a gwella'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt (17%).

Y prif rwystrau i gymdeithasau yn ymwneud â gweithgareddau datblygu cymunedol oedd:

- maint bach rhai cymdeithasau a diffyg adnoddau dynol o ganlyniad;
- natur wasgaredig yn ddaearyddol peth o stoc cymdeithasau;
- rôl a blaenoriaethau partneriaid allweddol, yn benodol awdurdodau lleol;

Ar adeg cyflawni'r ymchwil, nid oedd yr holl gymdeithasau tai yn ymwneud â gweithgareddau datblygu cymunedol, ac mae graddau ymwneud cymdeithasau yn amrywio'n sylweddol. Mae hyn yn creu gwasanaethau darniog eu natur ar draws Cymru, gyda'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i denantiaid yn amrywio'n fawr, o landlord i landlord ac o awdurdod lleol i awdurdod lleol, Mae peth amrywiad rhwng ardaloedd a landlordiaid yn gwbl resymegol o ystyried gwahanol gyd-destunau lleol a'r amrywiadau mewn ymagwedd cymdeithasau. Fodd bynnag, gallai mwy o gydweithio a rhannu arfer a dysgu ymysg cymdeithasau helpu i leihau yr hyn y gellir ei ystyried ar hyn o bryd yn 'loteri landlord a chod post', a gobeithir y bydd yr adroddiad hwn yn cynorthwyo'r cydweithio a'r rhannu hwnnw.

Awdur: Housing + Cymru

ISBN: 978 0 7504 7662 1